

21/10/21

Annwyl Riant / Warcheidwad,

Mae wedi bod yn ddechrau prysur i'r tymor a hoffwn ddiolch i'n holl ddisgyblion am eu hagwedd positif a'u hymdrechion gwych yn ystod y tymor – maent yn bleser i'w cael yn yr ysgol! Hoffwn dynnu eich sylw at gyhoeddiadau pwysig ar gyfer yr hanner tymor nesaf i ddod.

GWISG YSGOL

Rydym yn awyddus iawn i gynnal safonau uchel yn yr ysgol sydd yn cynnwys ymddangosiad ein disgyblion, eich plant chi, ar bob adeg. Gweler y llythyr a rannwyd gyda rhieni ar y 15fed o Hydref yn amlinellu ein disgwyliaid am y wisg yn glir unwaith eto. [Llythyr-Gwisg-Ysgol-Cymraeg.pdf \(bryntawe.swansea.sch.uk\)](https://www.bryntawe.swansea.sch.uk) Diolch o galon am bob cefnogaeth ar y mater pwysig yma.

ARHOLIADAU CYMRAEG A RHIFEDD BL.11

Fel y gwyrddoch, bydd disgyblion Bl.11 yn sefyll arholiadau Cymraeg a Rhifedd yn ystod y bythefnos gyntaf ar ôl hanner tymor – gweler y llythyr yma: [Arholiadau-Tachwedd.pdf \(bryntawe.swansea.sch.uk\)](https://www.bryntawe.swansea.sch.uk) am fanylion yr arholiadau. Mae'r disgyblion wedi derbyn adnoddau adolygu ar gyfer hanner tymor yn ogystal â sesiynau i ddatblygu eu sgiliau a strategaethau adolygu yn ystod yr wythnosau diwethaf. Bydd pob disgybl yn elwa o wneud gwaith paratoi ac adolygu pellach ar gyfer yr arholiadau – apeliwn atoch i gefnogi eich plentyn a'u hannog i fwrw ati gyda gwaith paratoi ar gyfer yr arholiadau hyn.

CANLYNIADAU UNEDOL

Ar **ddydd Gwener, Tachwedd 5ed**, bydd rhai o ddisgyblion Bl.11 a Bl.13 sy'n astudio cyrsiau galwedigaethol yn derbyn graddau ar gyfer unedau o waith a gwblhawyd ym Mlwyddyn 10/12. Bydd y graddau hyn yn cyfri tuag at y cymhwyster TGAU/Safon Uwch llawn ar ddiwedd y flwyddyn.

Dyma'r canlyniadau a fydd yn cael eu cyhoeddi ar Dachwedd 5ed:

Pwnc	Teitl yr uned	Canran o'r radd TGAU derfynol
Busnes	Busnes Adwerthu L2	25%
	Busnes Marchnata Gweithredol L3	25%
Twristiaeth	Twristiaeth Busnes L2	40%
	Twristiaeth Cyrchfannau Byd-Eang	25%
Adeiladu	Diogelwch A Diogeledd	25%
Chwaraeon	Ffitrwydd ar Gyfer Chwaraeon	40%

Bydd mwy o wybodaeth yn cael ei rannu gyda chi ar y diwrnod. Yn y cyfamser, os oes gennych unrhyw gwestiynau, mae croeso i chi gysylltu drwy ffonio'r ysgol neu drwy ebostio Edwa-JoneR@hwmail.net.

TREFNIADAU CINIO

Mae ymateb ein disgyblion i'r trefniadau cinio wedi bod yn arbennig dros yr hanner tymor cyntaf. Yn dilyn gwranddo ar eu barn, rydym yn mynd i newid amserau cinio blynnyddoedd 8, 9, 10 ac 11 yn y Ffreutur am yr hanner tymor nesaf. Gweler y drefn newydd isod:

CINIO 1: 11:50 – 12:40	
Blwyddyn 7 (Prif Ffreutur)	11:50 – 12:05
Blwyddyn 9 (Ffreutur y 6ed)	12:05 – 12:20
Blwyddyn 8 (Prif Ffreutur)	12:20 – 12:40
CINIO 2: 12:40 – 13:30	
Blwyddyn 11 (Ffreutur y 6ed)	12:40 – 13:00



Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
 Heol Gwrysoydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU
 Ffôn 01792 560600

Ebost: SwyddfaBrynTawe5@hwbcymru.net

www.bryntawe.swansea.sch.uk

Pennaeth : Mr Simon Davies



**BUDDSODDWR
MEWN POBL**

| Aur



Blwyddyn 10 (Prif Ffreutur)	13:00 – 13:30
6ed (Patagonia)	12:40 – 13:30

CYSWLLT I ACHOS POSITIF YN Y CARTREF

Mae newid i'r drefn os yw disgybl yn gyswllt agos i rywun ar yr un aelwyd. Yn ogystal â chymryd prawf PCR ar ddiwrnodau 2 ac 8, mae angen i ddisgyblion hefyd gymryd prawf LTF am y 7 diwrnod cyntaf. Gweler y wybodaeth isod gan Lywodraeth Cymru am esboniad pellach:

[Gohebiaeth :: Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe](#)

Diolch i chi fel rhieni am eich cefnogaeth barhaus i'r ysgol - gwyddom pa mor bwysig yw'r bartneriaeth rhwng y cartref a'r ysgol i gefnogi llwyddiant pob un o'n disgyblion. Hoffwn ddymuno hanner tymor braf iawn i chi a'ch plant.

Yn ddiffuant,





Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
Heol Gwrysydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU
Ffôn 01792 560600

Ebost: SwyddfaBrynTawe5@hwbcymru.net
www.bryntawe.swansea.sch.uk

Pennaeth : Mr Simon Davies



BUDDSODDWR
MEWN POBL

Aur



Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales